



Y sgrin


Mae'r eglwys yn gartref i sgrin hynod o'r cyfnod canoloesol diweddar. Mewn cyfnod pan oedd croglenni yn cael eu tynnu i lawr a'u symud o eglwysi, penderfynwyd y dylai'r sgrin hon gael ei chadw yn yr eglwys newydd, ac fe'i thynnwyd yn ofalus a'i storio tra'r oedd yr eglwys yn cael ei hailadeiladu. Cafodd ei hadnewyddu a'i gosod yn 1880, am gost o £300.

Ceir tebygrwydd rhwng y sgrin hon a rhai eraill o'r Drenewydd a Llanwnnog, gyda phatrymau cerfiedig tebyg, ac awgrymwyd mai cynnyrch gweithdy lleol oeddent, fwyaf tebyg wedi ei leoli rhywle yn Sir Drefaldwyn, efallai yn y Drenewydd.



Saif eglwys fechan Sant Anno mewn llecyn tawel ger yr Afon Ithon, wedi ei chysgodi gan goed o'r ffordd brysur ond troellog, sydd yn dilyn cwm yr afon, rhwng Llandrindod a'r Drenewydd. Ceir yr enw lle, yn awgrymu 'Eglwys Anno', yn y drydedd ganrif ar ddeg, ond mae ansicrwydd dros ei chysegriad yn amlwg gan fod cofnod ei bod wedi ei chysegru i Wonno yn y ddeunawfed ganrif. Nid oes unrhyw dystiolaeth gynnar arall ar gyfer Sant Anno, ac ni cheir unrhyw gyfeiriadau at y sant na'r dydd gwyl yn gynharach na'r ddeunawfed ganrif.

Ailadeiladwyd yr eglwys ganoloesol ym 1877 i gynlluniau'r pensaer David Walker gyda pheth o'r hen waith coed wedi ei adeiladu fel rhan o'r muriau newydd. Adferwyd hen goflechi o'r muriau i'r eglwys newydd ac fe gadwodd Walker un o'r seddi caeedig o'r ail ganrif ar bymtheg fel sedd ar gyfer y wardeiniaid, sydd yn awr wedi ei lleoli tua cefn yr eglwys



Darlun o du mewn yr eglwys gan David Walker, 1874

Fe fyddai croglen, sydd yn rhannu'r gangell o'r corff, wedi bod ym mhob eglwys ganoloesol ar un adeg. Byddai'r sgriniau hyn wedi cael eu peintio ac yn aml roeddent wedi eu haddurno â delweddau o saint. Uwchben y sgrin byddai'r grog - delwedd o Grist ar y groes, fel arfer gyda'i fam Mair a St Ioan o boptu iddo. Cafwyd wared ar ddelweddau a dinistriwyd bron y cyfan ohonynt wedi'r Dadeni, er, yn Llananno penderfynwyd lenwi'r cilfachau gyda ffigyrau unwaith eto. Cerfiwyd y rhain gan R.L. Boulton o Cheltenham ac maent yn dangos Crist yn y canol, gyda

ffigyrau o'r Hen Destament i'r chwith a'r deuddeg apostol i'r dde. Ychwanegwyd rhai o'r paneli cilfwa petryal oedd wedi eu colli ac fe gerfiwyd draig ychwanegol i ymestyn y croesbren, gan i'r eglwys gael ei hailadeiladu ychydig yn lletach na'i rhagflaenydd canoloesol. Gwnaethpwyd darlun o'r sgrin gan David Walker ym 1874 ac mae'n dangos y bylchau yn y paneli cilfwa ar dde'r sgrin, ac mae hefyd yn dangos na oroesodd sawl un o'r canopiau dros y cilfachau.



Mae dyfeisgarwch ac amrywiaeth y cerfiadau ar y paneli cilfwa petryal a'r bylau ar y sgrin yn Llananno yn ddigyffelyb yng Nghymru. Ceir rhai wynebau cerfiedig ar ddwy ochr y sgrin, gan gynnwys un rhyfedd sydd yn uno dau wyneb gyda'i gilydd.



Testun a Lluniau: Martin Crampin

Eglwysi eraill dan ofal y Friends yng Nghymru sydd â chroglenni

Sant Ellyw, Llanelu, Powys

Sgrînfelferandawedieicherfioyny14egganrif. Ar y coed sydd wedi eu peintio'n lliw gwaed ych mae stensiliau gyda rhosod gwyn. Yn y canol, mae croes wedi ei cherfio ar bren moel. (Ar agor yn ddyddiol).



Sant Jerôm, Llangwm Uchaf, Sir Fynwy

A majestic, intricately carved screen where most of the woodwork survives from the 1400s. Elements were sensitively restored in the 19th century. (Ar agor yn ddyddiol).



Santes Fair, Derwen, Sir Ddinbych

Yn anarferol, llofft y grog sydd wedi ei gerfio'n foethus yw'r prif beth i oroesi yma. Ar ben y llofft hon, byddai'r grog wedi cael ei chodi: croes, gyda ffigyrau'r Forwyn Fair a Sant Ioan o boptu. (Ar agor yn ddyddiol).

Sant Mihangel & Holl Angylion, Gwernesni, Sir Fynwy

Croes-bren trwchus o'r 15fed ganrif, gydag addurn cerfiedig o dresi o ddail, yn dyddio o'r un cyfnod. Mae gan y paneli addurn deilen aur o'r 19eg ganrif. (Ar agor yn ddyddiol).



Sant Brothen, Llanfrothen, Gwynedd

Sgrîn naw rhaniad gydag ymylon siamffrog syml. Fel sawl un arall collodd ei lofft y grog a'r grog ei hun yn dilyn difrodi crogau yn gyffredinol dan orchymyn y llywodraeth ym 1548. (Ar agor yn ddyddiol).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiau, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.


Neu ewch at y wefan.

Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.


www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig : 1113097



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Eglwys Sant Anno Llananno

cyflwyniad i'w hanes